

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 25ain o Fai 2022 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, Rhys Davies, John P Jones, Arfon Hughes, Berwyn Harding, Idris Jones, Sion Alun Roberts, Geraint Morgans, Wyn Lewis, Lynne Mccrickett, John P Roberts a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Clerc, gan gyfeirio yn arbennig at y Cynghorwyr oedd yn mynychu am y tro cyntaf.
2. Dywedodd mae'r orchwyl cyntaf ar ddechrau tymor newydd i'r Cyngor oedd ethol swyddogion. Ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Arfon Hughes, cynigiwyd enw Cyng. Sion Alun Roberts. Yna ar gynnig Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng Idris Jones, cynigiwyd enw yr Is-Gadeirydd presennol Catrin Johnson, ac yn dilyn pleidlais roedd y mwyafrif clir o blaid enw Cyng Catrin Johnson, a chytunodd i'r swydd. Yna aethpwyd ymlaen i ddewis Is-Gadeirydd, ac ar gynnig Cyng Geraint Morgans a'i eilio gan Cyng Idris Jones rhoddwyd enw Cyng John P Jones, a chytunodd i'r swydd.

Dywedodd y Cadeirydd newydd cymaint o fraint ac yn anrhydedd ydoedd i fod y ferch gyntaf i fod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Mawddwy. Addawodd i wneud ei gorau er mwyn y gymuned gyfan, ac i barhau gyda'r gwaith da roedd Cadeiryddion blaenorol dros y blynyddoedd wedi cyflawni.

Pwysleisiodd y pwysigrwydd i bob Cynghorydd ymddwyn mewn ffordd barchus, a chydardd tuag at ei gilydd. Mater difrifol iawn oedd cynnal democratiaeth leol, a phwysleisiwyd hefyd y rhwymedigaethau cyfreithiol wrth i bob Cynghorydd dderbyn y swydd Gynghorydd Cymuned. Pwysleisiodd hefyd pa mor hanfodol ydoedd fod pawb yn y Pwyllgor yn gweithredu'n unol ar Côt Ymddygiad a'r Reolau Sefydlog. Atgoffodd y Cadeirydd mai yma i weithredu ar ran y gymuned oedden a dim byd arall. Diolchodd am y cyfle, ac fe symudwyd ymlaen at swydd y Clerc, a chytunodd pawb yn unfrydol o blaid y Clerc presennol i barhau yn ei swydd.

Byddai y swyddogion felly fel a ganlyn ar gyfer 2022-23;

**Cadeirydd : Cyng Catrin Jones.**

**Is-Gadeirydd: Cyng John P Jones**

**Clerc : Huw T Jones.**

Dywedodd y Clerc ei fod yn derbyn y swydd unwaith eto, ond pwysleisiodd fod hyn ar y dealltwriaeth fod pawb yn cadw at y côd ymddygiad, dangos diddordeb pan oedd angen hynny, a gofyn am eglurhad os oedd angen. Dywedodd ei fod yn fodlon gwneud y swydd ar yr un telerau a 2021-22. Os oedd materion nad oedd ef yn siwr ohonynt, yna roedd am gael yr hawl i aros tan y cyfarfod nesaf. Roedd rhaid cofio mai Clerc i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ydoedd, nid i Gynghorwyr unigol, ac roedd rhaid cadw pob dim o fewn y cyfarfodydd oedd wedi ei drefnu Roedd yna gyfrifoldebau statudol gan y Cyngor, a dywedodd fod rhaid i bawb gydweithio a bod yn bositif o blaid gwaith

y Cyngor. Anogodd bawb i gael copi o 'Ganllaw y Cynghorydd da' a dangosodd gopi ohono.

Eglurodd y wefan, ac y byddai y cofnodion yn cael eu rhoi ymlaen ar ol iddynt gael eu cadarnhau. Byddai adroddiad byr yn cael ei roi yn y Blewyn Glas bob tro yn union ar ol y cyfarfod, ond eu pasio drwy y Cadeirydd yn gyntaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei holl waith caled, a bod y Cyngor yn ffodus dros ben o gael ei wasanaeth.

3. Nodwyd y cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. Nid oedd neb yn bresennol, ac aethpwyd ymlaen gyda'r gwaith.
4. Cadarnhwyd ddyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2022/23, sef sef 6/7/2022, 31/08/2022, 12/10/2022, 7/12/2022, 25/01/2022, a 8/03/2022.
5. Dosbarthwyd datganiadau derbyn swydd, a ffurflenni cofrestr buddiannau i'r Gynghorwyr (sydd i'w rhoi ar y wefan) a chawsant eu cwblhau. Ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan Berwyn Harding a gyda chefnogaeth pawb, penderfynwyd mabwysiadu y côd ymddygiad sydd wedi ei ddanfon gan Gyngor Gwynedd, ac a oedd wedi ei ddanfon allan i bawb ymlaenllaw.

Yna aethpwyd ymlaen i drafod yr asesiad risg a oedd wedi ei ddisbarthu ymlaenllaw i bawb mewn drafft. Ar gynnig John P Roberts a'i eilio gan Sion Alun Roberts, derbyniwyd y cyfan, ond nodwyd y dylid ychwanegu waliau y fynwent yn Mallwyd a Llanymawddwy. Cytunodd Sion Alun Roberts a J P Roberts edrych ar Llanymawddwy erbyn y tro nesaf, ac Arfon Hughes a Geraint Morgans i edrych ar Mallwyd.

Yna aethpwyd ymlaen i ystyried y rheoliadau arianol/sefydlog a'r holl bolisiau eraill sydd ar y wefan sef pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth. Ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan Arfon Hughes a chefnogaeth pawb, penderfynwyd i'w mabwysiadu unwaith yn rhagor.

6. Yna aethpwyd ymlaen i drafod cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau a sefydliadau allanol, a phenderfynwyd fel a ganlyn;

Un Llais Cymru – Catrin Johnson a Wyn Lewis (dywedodd Cyng Idris Jones ei fod yn dymuno sefyll i lawr – a diolchwyd iddo am ei waith)

Neuadd Bentref Dinas - Huw T Jones

Pwyllgor yr Hen Fynwent – Catrin Johnson a Lynne Mccrickett

Eco Dyfi - Rhys Davies

Dyfodol Dyfi – Rhys Davies a Sion Alun Roberts

Is-Bwyllgor Cyllid y Cyngor Cymuned – Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Cyng John P Roberts.

7. Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod y 9fed o Fawrth 2022 ar gynnig John P Jones a'i eilio gan Rhys Davies.

## 8. Materion yn codi

- a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a godwyd y tro diwethaf. Yng nghyswllt yr arwyddion baw cwn, dywedodd Arfon Hughes fod arwyddion wedi eu gadael yn yr Hen Siop. Adroddwyd o'r llythyr y gellid cysylltu gyda Norman Hughes swyddog Cymunedau Glan a thaclus o ran cael dispensers /bagiau baw cwn a mwy o arwyddion. Gwelwyd fod angen dilyn hyn i fyny, ac adnabod llefydd lle roedd eu hangen. Cytunodd Idris, Arfon a Lynne i ymdrin a hyn. Gwelwyd y dylid cael arwyddion lle mae problem, ac awgrymwyd Dolybont, Minllyn, a ger Bont Gerrig.
- b) **Bwrdd gwybodaeth yn Aberangell** – adroddwyd y diweddaraf, a bod y bwrdd gwybodaeth gyda Arfon Hughes. Yn y cyswllt hyn, darllenwyd e-bost gan Dion Roberts, Swyddog Prosiectau Rheoli'n Gynladwy y Parc Cenedlaethol yn dweud ei fod yn gweithio gyda grwp o dirfeddiannwyr yn ardal Dinas Mawddwy, ac mewn trafodaethau gyda Arfon Hughes o Gwmni Nod Glas ynglyn a prosiect i adnewyddu byrddau. Dywedodd John P Roberts ei fod ef a Sion Alun Roberts yn rhan o grwp SMS Mawddwy, ac ar gynnig John P Roberts a'i eilio gan Sion A Roberts, penderfynwyd gwahodd Dion atom y tro nesaf i drafod. Pwysleisiwyd mai y Cyngor Cymuned sydd piau y byrddau gwybodaeth, ac mai dyna fyddai y sefyllfa wedyn.
- c) **Torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy 2022** – cadarnhawyd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen, a bod Mallwyd wedi ei thorri i gyd cyn diwedd Ebrill eleni er mwyn priodas fu yno ar y 14eg o Fai.

## 9. Materion Cynllunio

Adroddwyd fod un cais cynllunio wedi ei ddsbarthu ers y cyfafod diwethaf., sef NP5/74/497 – Dymchwel y sied bren presennol ac adeiladu hafdy – 2 Peny Banc, Aberangell. – roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais.

Trafodwyd cais arall, sef NP5/74/500 – Tynnu llwybr 'broadwalk' presennol ac ail-wynebu gyda wyneb agreg newydd -Tir yn Waun Camddwr, Dinas Mawddwy – wedi ei ddsbarthu ychydig ddyddiau yn gynt. Cadarnhawyd fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais oherwydd byddai yn fwy diogel a pharhaol.

Cafwyd datganiad diddordeb gan John P Roberts a Sion Alun Roberts gadawsant yr ystafell pan drafodwyd hyn.

## 10. Materion Cyllid.

Cyflwynwyd cyfrifon 2021-22 yn swyddogol i'r Cyngor. Cyfeiriwyd at yr holl gofnodion, y dogfennau cyllid a'r crynodeb. Roedd yr Archwilwyr mewnol eisoes wedi gwneud eu gwaith, ac roedd y cyfan yn awr yn barod i'w gyflwyno i'r Archwilwyr allanol maes o law. Un mater yn unig oedd wedi codi y tro hyn, sef yr angen i roi cyfraniad £150 i'r Cyng. Arfon Hughes ar y wefan. Roedd hyn bellach wedi ei wneud.

Nodwyd derbyn rhan gyntaf y praesept am 2022-23 i law, sef £5,350. Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (5/05/2022), sef Cyfri Cyfredol £5920.03, Cyfri Claddedigaeth £589.78 Cyfri Cadw £768.74.

Atgoffwyd pawb ein bod eisoes wedi clustnodi £640 i Cylch Meithrin Dolybont yn y cyfarfod diwethaf, a chytunwyd i'r taliad yma gael ei wneud.

Nodi gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant BHIB a oedd wedi ei ddanfôn ymlaenllaw i bawb. Ar gynnig John P Roberts a'i eilio gan Sion Alun Roberts, cadarnhawyd fod manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2022-23 yn ddigonol, ac y gellir talu yr anfoneb, sef cyfanswm £278.40

Penderfynwyd talu anfoneb DTB Fabrications am roi ffram arwydd tu allan y Llew Coch, a phedwar polyn ar Dolybont am gyfanswm o £246.00. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng John P Jones).

Cytunwyd i dalu anfoneb John Arfon Owen am agor bedd ym mynwent Dinas 7/05/22, sef swm o £680.00

Roedd siec o £1712 i law gan Glyn Rees a'i Fab yng nghyswllt y diweddar Helena Rees.

Nodwyd cais am arian gan 'Cylch ti a fi' a chytunwyd ar swm o £200.

Nodwyd fod yn bwysig cael mantolen/anfonebau fel amod o gyfraniadau i wahanol fudiadau yn lleol

Penderfynwyd peidio cyfrannu i gais gan Kids Cancer Charity.

## **11. Gohebiaeth.**

- a) Darllenwyd gynnwys e-bost gan Alun Charles ar ran yr Eglwys yng Nghymru yng nghyswllt Eglwys Llanymawddwy, a oedd yn cyfeirio at gyfarfodydd blaenorol yn niwedd 2020. Roedd yn awgrymu dyddiad i gael trafod ymhellach, a chytunodd Cyngorwyr Llanymawddwy sef John P Roberts a Sion Alun Roberts i fod yn rhan o gyfarfod, a byddai y Clerc yn trefnu.
- b) Darllenwyd e-bost gan Sylvia Tulloch i'r Clerc yn dwyn sylw i sbwriel ar yr arhosfan ar yr A458 cyn Mallwyd, ac yn gofyn a fyddai modd cael bin yno. Trafodwyd hyn yn faith, a thra roedd cytundeb o gael bin, roedd pryder y byddai hyn yn arwain at fwy o sbwriel yn y pendraw, a bin ddim yn cael ei wagu. Gwelwyd mai ceisio cael mwy o arwyddion fyddai iw gweld yn glir fyddai'r ateb. Soniwyd hefyd am y gwaith gwirfoddol sydd yn mynd ymlaen yn ardal Dinas i glirio sbwriel.

## **12. Unrhyw Fater arall.**

- a) Gofynnwyd a ellir danfon llythyr i'r cyn-Gyngorwyr, sef Hedd, Robin ac Ynyr i ddiolch iddynt am eu gwaith dros yr ardal. Byddai'r Clerc yn cysylltu a hwy.
- b) Codwyd unwaith eto yr angen i edrych ar diroedd comin yr ardal, gan fod pryder fod pobl o'r tu allan yn medru eu cofrestru. Roedd angen ymchwilio i weld a fyddai posib gwneud hyn yn enw Cyngor Mawddwy i rwystro hyn rhag digwydd yn y dyfodol.
- c) Roedd darn o dir o dan Dugoed Bach Mallwyd lle roedd nifer o garafannau yno, ac roedd yn ymddangos fod pobl yn byw yno. Gofynnwyd a ellir danfon at Barc Cenedlaethol Eryri ynglyn a'r mater. Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng J P Roberts sydd yn aelod o Awdurdod y Parc.
- d) Roedd y wal ar dop Bwlch y Groes ger y groesffordd Llanwddyn/Bala angen sylw. Hefyd, roedd angen edrych ar y garreg ger y Groes yno, ac angen ailsgwennu y geiriau. Cytunodd Sion Alun, John P Roberts a'r Cadeirydd edrych ar hyn.

- e) Adroddwyd fod tai gwag yn broblem yn yr ardal, ac y dylid edrych ar hyn. Gofynnwyd a ellir cael rhywun o Gyngor Gwynedd i edrych ar y posibiladau, a beth yw'r opsiynau. Nodwyd gan eraill fod rhaid cofio mai tai preifat oedd y rhain. Dywedodd Cyng J P Roberts y byddai yn danfon enw y swyddog perthnasol i'r Clerc.
- f) Adroddwyd fod canclwm siapan yn parhau yn broblem o fewn yr ardal, Gofynnwyd a fyddai posib cael diweddariad gan Rhys Owen o'r Parc Cenedlaethol. Awgrynwyd y gallai y Parc wneud rhai darnau, a Chyngor Gwynedd gael edrych ar ddarnau eraill.
- g) Roedd angen edrych ar hysbysfwrdd Mallwyd, a gofyn i Hefin Pugh am amcanbris. Nodwyd hefyd fod angen mwy o fagnedau ar eu cyfer.
- h) Nodwyd pryder mawr am y coed oedd yn parhau heb eu torri oddiar y gefnffordd uwchlaw Dinas, ac y dylai y cyfan gael eu torri, oherwydd gallent fod yn beryglus dros ben. Hefyd roedd y coed ar yr ochr isa ger Brynteg angen eu torri.
- i) Cyfeiriwyd at yr etholiad yn ddiweddar, a gofynnwyd paham fod yna 25 o bleidleisiau na chafodd eu cyfri yn ward Llanymawddwy. Nid oedd unrhyw bleidleisiau heb eu cyfri yn y Dinas. Gwelwyd fod angen eglurhad, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu ar Iwan Evans o Gyngor Gwynedd.
- j) Adroddwyd fod angen ymestyn y man troi ym mhen draw stryd Minllyn, gan fod y man presennol yn gul a chyfyng iawn. Hefyd roedd angen gwell arwydd yn nodi nad oedd hon yn ffordd trwodd.
- k) Roedd coed wedi gor-dyfu ym mynediad yr Eglwys yn Llanymawddwy, ac roedd angen hefyd tacluso a chlirio y mwsog ar y llwybr. Awgrymwyd cael amcangyfrif erbyn y cyfarfod nesaf, a threfnu cyfarfod efo Tegid a Cyng J P Roberts/Clerc.
- l) Gofynnwyd a oedd posib cael eglurhad syml o incwm/gwariant y Cyngor Cymuned, ond dywedwyd gan y mwyafrif o'r Cynghorwyr fod y wybodaeth yn ddigon clir ar y wefan.
- m) Dywedwyd fod angen gwell cyfleusterau ar gyfer plant dros 7 oed yn y Dinas. Gwelwyd fod angen gwneud ymchwil i hyn erbyn y tro nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER 6ed Gorffennaf 2022, 8.00yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 10.15pm.